


papur



priordy



**Ganol gaeaf noethlwm
cwynai'r rhewynt oer,
ffridd a ffrwd mewn cloeon
llonydd dan y lloer:
eira'n drwm o fryn i dref,
eira ar dwyn a dôl,
ganol gaeaf noethlwm
oes bell yn ôl.**

Christina Rossettii (1830-94) cyf Simon B Jones (1894-1964)
Caneuon Ffydd 466

Gweler Gweddi ein Gweinidog y tu mewn

Rhifyn 339
PAPUR RHAGFYR 2020

NADOLIG BETI-WYN



Sut ydych chi'n treulio'ch dydd Nadolig

Rydyn ni'n parhau i godi'n gynnar iawn er mwyn agor anrhegion Nadolig - hosannau yn gyntaf! Yn dilyn hynny, rydyn ni'n mynychu'r gwasanaeth yn Y Priordy. Rydyn ni fel teulu yn credu taw'r oedfa yw un o uchafbwyntiau'r diwrnod, mae'r awyrgylch yno mor mor hyfryd. Coffi bach ar ôl cyrraedd adref a cherdded Llew y ci cyn i'r teulu lanio. Ni fydd rhaid i dad deithio'n bell eleni, ac rydym yn disgwyl modryb ac wncwl i ddod atom am y dydd hefyd yn ôl eu harfer, os bydd amgylchiadau'n caniatáu. Cychwyn ar baratoi'r cinio ganol bore gyda charolau yn chwarae'n dawel fach yn y cefndir, gan weddio y bydd y greffi gystal ag un mam! Eistedd i lawr i fwyta tuag 1. Y bwrdd wed'i baratoi y noson gynt. Mae gweddill y p'nawn yn cael ei dreulio o amgylch y bwrdd cyn i bawb fwrw'r soffas a chysgu am awr fach ar ôl clirio'r llestri cinio a chyn swper!

Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs Cyntaf

Melon, ffrwythau a sorbet, ond rydyn ni wedi cael cawl cartref y ddau Nadolig diwethaf gan ei fod yn cwrdd â gofynion bwyta pob aelod o'r teulu! Digon yw gwneud un cwrs cyntaf heb orfod gwneud dau! Rwy'n hoff iawn o arbrofi gyda chawl gwahanol, sgwash cnau menynd oedd hi'r llynedd - cawn weld beth fydd eleni.

Ail Gwrs

Twrci ac amrywiaeth o lysiau. Rwy'n hoff o rostio gymaint â phosib o'r llysiau er mwyn cael mwy o flas. Digon o sbrowts ond nid cymaint ag y bu'n rhaid i'r Ficer o Dibley eu bwyta!

Trydydd Cwrs

Pwdin Nadolig a saws gwyn traddodiadol. Ond dyw dad ddim yn medru'i fwyta, felly rydyn ni'n gwneud jeli iddo fe bob Nadolig - un haenen werdd ac un haenen goch gyda sbrigyn o gelyn ar ei ben!

Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

Yr un anrheg roeddwn wedi bod mor ffodus i'w gael gan Siôn Corn ar fwy nag un Nadolig oedd beic. Roeddwn yn byw ar fy meic pan o'n i'n iau, a doedd dim anrheg tebyg i'w gael. Roedd llyfrau yn bwysig hefyd, ond doeddwn i ddim yn cael y llyfrau tan ar ôl swper ar ddydd Nadolig rhag i mi dreulio'r diwrnod â'm trwyn ynddynt a bod yn anghymdeithasol o flaen y teulu!

Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

'Suai'r gwynt'. Rwy'n creu bod geiriau'r ail bennill yn iasol:

*cwsg cyn daw Herod â'i gledd ar ei glun,
cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,
cwsg cyn daw'r groes i'th ran...*

Nid dathlu geni unrhyw faban bach a wnawn adeg y Nadolig, ond dathlu geni Gwaredwr y byd. Roedd cysgod y groes ar lwybr Iesu o'r foment y cafodd ei eni.

Gweddio gyda'n Gweinidog



*Ganol gaeaf noethlwm
cwynai'r rhewynt oer,*

Arglwydd, yn nyfnder gaeaf ein byd,
pan fo rhewyntoedd gofid a dryswch yn
cydio ynom,

helpa ni i ymdeimlo â sicrwydd gwres dy gariad Di.

*ffridd a ffrwd mewn cloeon
llonydd dan y lloer:*

Arglwydd, maddau i ni os yw clo ein calon
yn rhewi oherwydd hunanoldeb a thrachwant,
helpa ni i ymdeimlo â gwres dy gariad yn cynhesu'n calonnau.

Dofa pob ofn sydd ynom,
a chymorth ni i ymlonyddu ynot Ti.

*eira'n drwm o fryn i dref,
eira ar dwyn a dôl,*



Arglwydd y greadigaeth,
cymorth ni, wrth sylu ar wynder yr eira
i weld dy purdeb Di.
Gwna ni yn wynfydedig ynot.

*ganol gaeaf noethlwm
oes bell yn ôl.*

Arglwydd, arwain ni'n feddyliol ac yn ysbrydol
yn ôl at y Nadolig cyntaf,
a chymorth ni i ymgolli'n llwyr yn neges y geni.

*Beth a roddaf iddo,
llwm a thlawd fy myd?*

Arglwydd, yng nghanol rhialtwch y Nadolig,
y gwledda a'r gwario gwirion,
gwna ni'n dlawd ym mhethau'r byd
ond yn gyfoethog yn dy bethau Di.

*Pe bawn fugail rhoddwn
orau'r praidd i gyd;*

Arglwydd, diolchwn am ryfeddod y bugeiliaid
o glywed y newyddion am eni Iesu
ac am iddynt fynd ar unwaith i Fethlehem i'w weld.
Cymorth ni i ddychwelyd o Fethlehem eleni fel y bugeiliaid gynt,
gyda sioncrwydd newydd yn ein cerddediad
ac ystyr newydd i'n bywyd.

*pe bawn un o'r doethion
gwnawn fy rhan ddi-goll;*

Arglwydd, wedi ymweld â phreseb Bethlehem y Nadolig hwn,
a phlygu i addoli'r baban Iesu,
cymorth ni i fynd oddi yno ar hyd ffordd arall, fel y doethion gynt;
ffordd arall o feddwl a ffordd arall o fyw.

*ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.*

Cymer fy serchiadau, lôr,
wrth dy draed 'rwy'n bwrw eu stôr;
cymer, Arglwydd, cymer fi
byth, yn unig, oll i ti.

...y Nadolig hwn, a phob amser.



Amen

CYFARCHION GAN HUW EDWADS

Nwyddiadurwr a Chyflwynydd

Diolch calon am y cyfle hwn ar drothwy'r Nadolig i gyfarch aelodau'r Priordy ar derfyn blwyddyn heriol iawn i bawb ohonom. Dyma ddymuno iechyd da i chi a bywyd 'normal' (beth bynnag yw hwnnw) yn 2021, gan obeithio y bydd y datblygiadau gwyddonol diweddaraf yn destun cysur a sicrwydd yn y frwydr fawr yn erbyn Covid-19.



Bu'r cyfnodau clo yn anodd iawn i filiynau o bobl, ond fe roesant gyfle hefyd i rai teuluoedd i dreulio mwy o amser ynghyd, a chyfle ychwanegol i ailgydio mewn prosiectau neu waith ymarferol o amgylch y cartref. I mi yn bersonol, er i mi gael mis diflas yn dioddef o glefyd Covid-19, manteisiais ar y profiad prin o gael ychydig o amser rhydd. Canlyniad hyn oedd ceisio rhoi trefn ar y silffoedd llyfrau yn y tŷ, a sawl pentwr o lyfrau a dogfennau ar lawr y stydi.

Un o'r llyfrynau cyntaf a ddaeth i'r golwg o berfedd un o'r pentyrrau oedd hwnnw a gefais yn rhodd ar ymweliad â Chapel Heol Dŵr ym mis



Awst 2016, ychydig fisoedd cyn cau'r capel. Y mae'r llyfryn yn crynhoi hanes y capel, un o achosion pwysicaf yr Hen Gorff, a sefydlwyd gan yr enwog Peter Williams. Cefais groeso arbennig o gynnes gan Marina a Molly pan ymwelais y tro hwnnw, a theimlo o'r newydd y cyfuniad o dristwch a siomedigaeth a

rhwystredigaeth yn wyneb y sefyllfa.

Soniais wrthynt am fy unig ymweliad blaenorol â Heol Dŵr, tua 1968, pan deithiodd plant holl gapeli Presbyteraidd Llanelli mewn

bws i Gaerfyrddin i fynychu cyfarfod gwobrwyo dan nawdd Henaduriaeth De Myrddin. Daeth Mam-gu gyda mi a'm chwaer Meinir ac fe gawsom dipyn o hwyl ar y ffordd yno pan dorrodd y bus 'South Wales Transport' i lawr yng Nghydsweli. Ebychodd yr anfarwol Gethin Hughes - 'Pwy sy'n mynd i chwarae'r organ os wy'n hwy?' - a phawb yn bosto chwerthin. Roeddem ni blant y capeli 'bach' pentrefol ar lawr isaf y 'double-decker', a gang Capel Newydd a chapeli eraill y 'townies' ar y llawr uchaf. Yn ôl Mrs Annie May Stephens, Bryn Seion, roedd angen bihafio yn Heol Dŵr oherwydd bod 'lot o bobl bwysig yna'. Roedd hi o'r farn mai plant 'rough' oedd plant tref Llanelli. 'Sticwch chi at blant Llwynhendy,' oedd ei chyngor cofiadwy hi. A dyna a wnaethom. Cawsom eistedd gyda nhw yn y capel ac yn yr ysgoldy ar gyfer y te. A beth oedd y wobr, meddech chi? Wel llyfr emynau, wrth reswm! Mae'r llyfr hwnnw gen i o hyd.

Bu tipyn o gleber ym Mae Caerdydd am greu 'strategaeth genedlaethol' i ddiogelu ein prif adeiladau (hynny yw, y capeli mwyaf arwyddocaol o ran hanes neu bensaernïaeth) ond cyfangwbl ddiffwrwyth fu'r broses hyd yn hyn. Y mae Heol Dŵr yn esiampl arbennig o dda. Dyma gapel sy'n bwysig o ran hanes Cymru a Chaerfyrddin (un o achosion cynharaf y Methodistiaid Calfinaidd) ac o ran pensaernïaeth (mae'r tu mewn yn odidog yn ei ffurf hanergylych a'i symrlwydd). Ac mae na organ arbennig o dda gan gwmni enwog Binns. Os nad oes modd cytuno ar gynllun i ddiogelu adeiladau o'r pwys hanesyddol mwyaf, pa obaith sydd? Wedi'r cyfan, mae gwarchod cestyll yn flaenoriaeth uchel iawn yng Nghymru.



Arnom ni gapelwyr mae'r bai, i raddau, am y diffyg parch a welir i'n hetifeddiaeth ni yn ein gwlad ni ein hunain. Pe baem o ddifrif gallem uno fel capelwyr ac eglwyswyr i fynnu bod gweinidogion Bae Caerdydd yn gwrando a gweithredu. Mae angen rhestr ffurfiol a chydabyddedig o adeiladau y mae'n rhaid eu gwarchod yn ddieithriad. Gall y cyhoedd fod yn rhan o'r broses o lunio rhestr genedlaethol. Dylai'r cyfan fod yn esiampl i wledydd eraill o brosiect poblogaidd i warchod etifeddiaeth ddiwylliannol.

Dychmygwch y trafod a'r toethan... pa gapeli neu eglwysi fyddai'n dod i frig y rhestr yng Nghaerfyrddin? Ac o ran Llanelli, dim ond person dewr fyddai'n mentro dewis rhwng Capel Als, Capel Newydd a'r Tabernacl... er bod yr ateb cywir yn amlwg ddigon, wrth gwrs.

Gobeithio daw 2021 a chyfle arall i mi ymweld â'r Priordy. Bu

Beti-Wyn yn groesawgar tu hwnt pan fuom ni yno yn ffilmio rhifyn o 'Dechrau Canu' a chlywed am waith arbennig y capel yn helpu teulu o ffoaduriaid. Byddaf yn meddwl yn aml am eiriau Dr Geraint Tudur am ein capeli – 'Rhaid iddyn nhw sylweddoli nad



bodoli oherwydd eu haelodau y maen nhw, ond i'w cymunedau, ac i wasanaethu'r cymunedau hynny.'

Dyma ddymuno Nadolig dedwydd i bob un ohonoch, yng nghwmni eich teuluoedd a'ch ffrindiau, gobeithio – a Blwyddyn Newydd bositif, iach ym mhob ystyr.

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

DYMA'R UNDEB

Rhifyn 54 - Hydref 2020 ar gael. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd am gopi neu gallwch droi at cyfundeb.com



FY MYWYD OLL

A wyddech chi mai Esgob o Gymro ddyluniodd y darn arian cyntaf gan y Bathdy Brenhinol i nodi'r Nadolig?

Mae'r darn arian, gwerth £20, yn portreadu Drama'r Geni ac yn dangos Crist â'i freichiau ar agor i'r byd. Mae'n ein hatgoffa fod hanes geni Iesu yn rhywbeth y tu hwnt i unrhyw amser neu le penodol.



Darn coffa
yw hwn ac
nid oedd
bwriad iddo
gael ei gylchredeg yn gyffredinol.
Bathwyd 30,000 o ddarnau i gyd.

Y dylunydd oedd **Gregory Kenneth Cameron**. Yn frodor o dde ddwyrain Cymru, cafodd ei godi yn Llanybi, Mynwy a'i ethol yn Esgob Llanelwy yn 2009. Ymhlith ei ddiddordebau mae herodraeth a chaliograffeg ac mae wedi

sichrau cydnabyddiaeth fel dylunydd darnau arian yn ei amser hamdden.

Mae'r darn arian yn nodedig gan mai dyma'r cyntaf yn hanes y Bathdy Brenhinol, ers ei sefydlu dros fil o flynyddoedd yn ôl, i bortreadu Crist.




Hyd yma, mae'r Esgob wedi creu tri dyluniad i'r Bathdy Brenhinol. Yn ogystal â'r darn arian Nadolig, bu'n gyfrifol am ddylunio **darn punt crwn** olaf y Bathdy a **darn arian** i nodi pen-blwydd saffir (65 mlynedd) teyrnasiad y Frenhines Elizabeth.



Mae'r Nadolig yn amser ar gyfer rhoi. Dyw hi ddim yn syndod felly fod hen hen hanes i'r cyswllt rhwng darnau arian a'r Nadolig. Dechreuodd y traddodiad o roi anrhegion adeg y Nadolig

gyda'r Doethion (sydd i'w gweld ar y darn arian o waith yr Esgob) yn cyflwyno aur, thys a myrr i'r baban Iesu.

Tybed a oes anrheg y gallwn ni ei roi i Iesu'r Nadolig hwn? Yn sicr, allwn ni ddim meddwl rhoi mwy iddo nag a roiodd yntau i ni: *'yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth'* ac eto'n *'anfeidrol fywiol Dduw'* yn marw trosom er mwyn i ni gael byw.



Ond mae yna un anrheg, y byddai Iesu'n ei ddymuno gennym y Nadolig hwn. Yr anrheg hwnnw yw ni ein hunain. Ac mae rhoi'n hunain o fewn cyrraedd pob un ohonom, beth bynnag yw'n hamgylchiadau yn yr hen fyd yma:

Beth a roddaf iddo,
llwm a thlawd fy myd?
Pe bawn fugail rhoddwn
orau'r praidd i gyd;
pe bawn un o'r doethion
gwnawn fy rhan ddi-goll;
Ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.



DYFODOL YR YSGOL SUL

Bu cyfarfodydd i drafod y ffordd ymlaen i'r Ysgol Sul yng nghanol y pandemig ar ddau achlysur yn ddiweddar. Bu'n Gweinidog yn rhan o gyfarfod a drefnwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg gydag Aled Davies, Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru. Roedd y pwyslais yn bennaf yn y cyfarfod hwn ar ledaenu gwybodaeth am adnoddau. Bu hefyd, gyda Jayne Woods, mewn cyfarfod tebyg a drefnwyd gan Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ar Nos Wener 20 Tachwedd 2020. Roedd y pwyslais y pryd hwnnw ar drefniadau ac arferion da lleol a chafwyd gwers enghreifftiol gan ein Gweinidog. Prin iawn yw'r capeli sy'n gallu cynnal Ysgol Sul wyneb yn wyneb ar hyn o bryd ond mae nifer o arferion rhithiol addawol ar waith ynddynt a gwerthfawr oedd dod i wybod amdanynt.



Stampiau Cristnogol - Nadolig 2020

Cofiwch ofyn amdanynt!



Mae stampiau Cristnogol newydd eleni'n cynnwys wyth stamp cain yn portreadu'r Forwyn Fair a'r baban Iesu sydd wedi'u darlunio yn ffenestri gwydr lliw nifer o eglwysi Anglicanaidd fel a ganlyn:

Stampiau Ail Ddosbarth (ac Ail Ddosbarth mawr)
Eglwys Sant Andreas, Dwyrain Lexham, Norfolk

Stampiau Dosbarth Cyntaf (a Dosbarth Cyntaf mawr)
Eglwys Sant Andreas, Coln Rogers, Swydd Gaerloyw

Stampiau £1.45
Eglwys Sant Iago, Hollowell, Northamptonshire

Stampiau £1.70

Eglwys yr Holl Saint, Otley, Gorllewin Swydd Efrog

Stampiau £2.50

Eglwys Sant Columba, Topcliffe, Gogledd Swydd Efrog

Stampiau £2.55

Eglwys Crist, Coalville, Swydd Gaerlŷr

Mae'r stampiau hyn i'w croesawu gan eu bod yn gyfrwng i gynnal y ddelwedd grefyddol a'r dathlu, yn enwedig wrth i ni bostio'n cardiau Nadolig. Trueni, serch hynny, nad oes cefndir Cymreig i'r un ohonynt.

Mae'r Post Brenhinol yn cyhoeddi stampiau bob Nadolig, ar thema seciwlar a chrefyddol am yn ail fel arfer. Mae hefyd yn sicrhau bod stamp gyda'r Forwyn Fair a'r baban Iesu ar gael yn ystod blwyddyn cyhoeddi stampiau seciwlar.

Cofiwch felly ofyn am stampiau Cristnogol eleni. Mae'n bwysig i ni gofio fod yna berygl i'r dyluniadau Cristnogol leihau os yw'r gwerthiant yn disgyn!

Y dyddiadau postio olaf er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:

**Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020 ar gyfer post Ail Ddosbarth
a**

Dydd Llun 21 Rhagfyr 2020 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf



CARDIAU NADOLIG CYMORTH CRISTNOGOL

**Arddangosfa yn y capel yng
Nghanolfan Heol Dŵr**

**Cyswllt
Tom T Defis**

tdefis@cymorth-cristnogol.org

☎ 07929173352

NADOLIG ELIN JONES



Elin Jones AS a Llywydd Senedd Cymru

Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?

Dwi'n treulio fy Nadolig yn Llanwnnen, y pentref ger Llambed lle'm magwyd ac mae fy rheulu'n dal i fyw yna. Nadolig teuluol iawn, er o bosib y bydd llai ohonom eleni oherwydd y coronafeirws.

Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs Cyntaf

Glasied o sieri

Ail Gwrs

Twrci a'r holl drimins

Trydydd Cwrs

Pwdin Nadolig, er heb sôs gwyn - hufen yn lle hynny.

Beth yw'r anrheg/ion Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

Y rhai y bydda i'n eu cael eleni!

Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?


Carol y Gannwyll gan John Rutter. Fi ysgrifennodd y geiriau Cymraeg ac roedd Cwlwm yn ei chanu yn ein cyngerdd Nadolig blynyddol yn Eglwys Llambed i godi arian i Gymorth Cristnogol.



CYMDEITHAS A GWEDDI

Gweler

**CYMDEITHAS A GWEDDI
AC OEDFAON DIGIDOL
YN YSTOD YR AIL GLO**



**ARWYDD NEWYDD
Y TU ALLAN I'R
CAPEL**

**DIOLCH I LYN
JONES AM EI
OSOD**

Ludwig van Beethoven
1770-1827

DYWEDODD y cyfansoddwr Liszt yn 1852, *'I ni gerddorion, gellir cymharu gweithiau Beethoven â'r golofn o fwg a thân a arweiniodd yr Israeliaid drwy'r anialwch'*. A dyna galon y gwir. Fe gafodd cyfansoddiadau Beethoven ddylanwad mawr ar ei gyfoeswyr a'r rhai a'i

ddilynodd. A heddiw, ddwy ganrif a hanner ar ôl ei eni, mae ei weithiau'n dal yn boblogaidd iawn. I nodi'r garreg filltir bwysig hon, darlledwyd amryw o raglenni ar y radio, y teledu a'r cyfryngau cymdeithasol. Gan na fedrodd Llŷr Williams fynd i Fecsico i wyl gerddorol oherwydd feirws Cofid-19, recordiodd y 32 o sonatau Beethoven i'r piano o'i gartref ger Wrecsam i'w darlledu ar lein. Cafodd y rhai a'i gwelodd wledd.



Ganed **Beethoven** yn Bonn i deulu cerddorol ar y 15fed neu'r 16eg o Ragfyr, 1770. Roedd ei daid yn gantor a ddaeth yn ddiweddarach yn *'Kapellmeister'* (cyfarwyddwr cerdd) yn llys Etholwr ac Archesgob Cologne. Roedd ei fab, Johann, sef tad Ludwig, hefyd yn gerddor ond oherwydd ei fod ef yn yfed yn drwm, ni chafodd ei fab blentyndod hapus iawn. Dangosodd Ludwig yn gynnar iawn fod ganddo yntau allu cerddorol arbennig, a byddai'i dad yn ei godi o'r gwely ynghanol nos i roi gwersi piano iddo.



Daeth addysg ffurfiol Ludwig i ben pan oedd yn 11 oed, ond erbyn hynny roedd wedi dechrau cyfeilio yng ngherddorfa opera Bonn. Yn y cyfnod hwnnw, penodwyd Christian Neefe yn organydd y llys ac ef a ddaeth yn athro cerdd i Ludwig. Pan oedd yn 12 oed, fe'i penodwyd yn ddirprwy organydd i Neefe a phan oedd yn 13 oed, cyhoeddwyd amrywiadau o'i waith ym Mannheim. Roedd yn banydd medrus a fedrai gyfansoddi'n fyrfyfyr wrth y piano a byddai hefyd yn chwarae'r fiola yng ngherddorfa'r llys a'r opera. Creodd gallu rhyfeddol Beethoven argraff ddofn ar yr Archesgob a

chytunodd ei anfon i Fienna yn 1787 i dderbyn hyfforddiant gan **Mozart**. Pan glywodd hwnnw Beethoven yn chwarae'r piano, dywedodd wrth ei gyfeillion – *'Sylwch ar hwn, oherwydd fe fydd hwn yn gwneud marc yn y byd'*. Torrwyd arhosiad



Beethoven yn Fienna'n fyr am iddo gael ei alw'n ôl i Bonn am fod ei fam wedi'i tharo'n sâl. Erbyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed ef oedd yn brif gynhaliwr ariannol y teulu gan fod ei dad wedi colli'i swydd oherwydd ei alcoholiaeth. Yn 1790 galwodd **Haydn** yn Bonn ar ei ffordd i Lundain a



diau iddo gyfarfod â'r cerddor ifanc. Wrth ddychwelyd o Lundain yn 1792, galwodd eto yn Bonn a'r tro hwn gwahoddodd Beethoven i Fienna i dderbyn hyfforddiant ganddo. Ni fyddai wedi bod yn bosibl i Beethoven fforddio'r fath fenter onibai i'r Archesgob gytuno i noddi Beethoven i fynd i Fienna i astudio. Y bwriad oedd y byddai Beethoven yn dychwelyd i Bonn i gyfoethogi bywyd cerddorol y rhan honno o'r wlad, ond treulio gweddill ei fywyd yn Fienna hyd at ei farwolaeth ym mis Mawrth 1827 a wnaeth.

Er i Beethoven gael gwersi cyfansoddi gan Haydn ac eraill, fel pianydd medrus y gwnaeth ei enw yn ystod y blynyddoedd cynnar yn Fienna. Fe'i gwahoddid i gartrefi'r boneddigion i roi cyngherddau a byddai'n dibynnu am nawdd rhai o'r boneddigion hynny ac ar werthiant ei weithiau i gyhoeddwyr am ei gynhaliaeth.

Erbyn 1797 dechreuodd sylwi ei fod yn dechrau colli'i glyw. Chwiliodd am bob math o feddygyniaethau i geisio rhwystro'r dirywiad ond doedd dim byd yn tycio. Siarsiodd ei gyfaill agosaf i beidio dweud wrth neb am ei ddiffyg clyw, ond wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau, daeth hynny'n hollol amlwg i bawb. Achosodd ei ddigalondid iddo fod yn flin a checrus gyda phobl ac yn aml, byddai'n cweryla gyda pherchennog ei lety a byddai'n symud byth a beunydd. Roedd ei ystafelloedd bob amser yn flêr a brwnt a byddai'n cerdded o gwmpas Fienna'n edrych fel cardotyn. Awgrymodd un meddyg ei fod yn treulio dipyn o amser yn y wlad i weld a fydda hynny'n help ac yn 1802 aeth i aros i Heiligenstadt. Tra'r oedd yno, arllwysodd ei ddigalondid i ddogfen a elwir yn 'Destament Heiligenstadt'. Ynddi mae'n ysgrifennu at ei ddau frawd i sôn am ei ddigalondid a'i fod wedi ystyried lladd ei hun, ond ei fod wedi penderfynu y byddai'n concro'r aflwydd drwy ymgolli yn

ei gelfyddyd. Ni ddangosodd Beethoven y ddogfen i unrhyw un ond fe'i darganfyddwyd ymhlith ei bapurau wedi iddo farw. Erbyn hyn, roedd sgwrsio gyda phobl eraill yn mynd yn fwyfwy anodd, ac roedd arwain cerddorfa neu chwarae i weithiau gyda cherddorfeydd yn llanast llwyr. Ym 1814, yr unig ffordd y medrai glywed sgwrs oedd trwy ddefnyddio corn clust ond erbyn 1818, byddai'n cario llyfr nodiadau ganddo i bobman gan ofyn i bawb ysgrifennu ynddo'r hyn yr oedden nhw eisiau'i ddweud wrtho. Er gwaetha'r cyfan, ni phallodd ei greadigrwydd a gellir dweud iddo gyfansoddi'i weithiau pwysicaf o hynny ymlaen hyd yn oed at yr wythnosau olaf cyn ei farwolaeth.



Ei weithiau mwyaf poblogaidd yw ei 9 symffoni, ei 5 gonsierto i'r piano, ei gonsierto i'r ffidil, ei 32 sonata i'r piano, ei weithiau i gyfuniadau siambr, yn enwedig ei bedwarawdau llinynnol, ei opera '*Fidelio*' a'i offeren '*Missa Solemnis*'. Yn ei chweched symffoni, '*Y Pastoral*', mae ei atgofion am fywyd gwledig yn flaengar iawn. Credir, er nad oedd Beethoven yn ymarfer ei Gristnogaeth, ei fod yn addoli Duw ym myd natur a theitl symudiad olaf y symffoni yw '*Cân y Bugeiliaid - teimladau o ddiolchgarwch wedi'r Storm*'.



Mabwysiadwyd rhan olaf ei nawfed symffoni gan y Gymuned Ewopaidd fel ei hanthem. Mae'r côr yn canu geiriau o waith y bardd Schiller '*Cerdd i Lawenydd*'. O'r toreth o'i gyfansoddiadau, ychydig yn wir sydd

yn Gristnogol. Yn fuan ar ôl iddo ddychwelyd o Heiligenstadt, cyfansoddodd ei waith crefyddol cyntaf, sef ei Oratorio '*Crist ar Fynydd yr Olewydd*'. Mae'r gwaith yn darlunio dioddefaint ac unigrwydd Crist a'i fuddugoliaeth ar angau. Ynddo adlewyrchir penderfyniad Beethoven i wynebu'i dynged yn ddewr. Ystyriai Beethoven mai'i waith gorau oedd ei offeren, '*Missa Solemnis*', a gyfansoddwyd yn ystod blynyddoedd olaf ei fywyd. Ei fwriad, meddai mewn llythyr at un o'i ffrindiau, oedd deffro meddyliau crefyddol yn y cantorion a'r gwrandawyr. Yn un o'i bedwarawdau llinynnol olaf, ysgrifennodd uwchlaw'r symudiad araf - '*Cân sanctaidd o ddiolchgarwch i'r Duwdod gan glaf sy'n gwella*'.

Seiliwyd ei ‘*Emyn i'r Greadigaeth*’ ar Salm 19 – ‘*Y nefoedd sy’n datgan gogoniant yr lôr a’r ffurfafen sy’n mynegi gwaith ei ddwylo*’. Mewn rhifyn o ‘*Ganiadaeth y Cysegr*’ ar Radio Cymru yn ddiweddar, dywedodd Branwen Gwyn fod dwy dôn yng ‘*Nghaneuon Ffydd*’ wedi’u seilio ar alawon gan Beethoven sef ‘*Engedi*’ a ‘*Beethoven*’.

FE gafodd Beethoven lawer o anhwylderau trwy gydol ei fywyd a bu’n dioddef llawer yn ystod y blynyddoedd olaf. Daeth ei rawd i ben ym mis Mawrth 1827. Credir bod 20,000 wedi dod i Eglwys San Steffan, Fienna ar ddydd ei angladd i dalu teyrnged i un o’r cyfansoddwyr mwyaf athrylithgar a welodd y byd erioed. Mae’i weddillion ef a Schubert yn gorwedd nesaf at ei gilydd yn y fynwent yno.



CWRDD GWEDDI



Nos Lun, 7 Rhagfyr 2020 am 7 o’r gloch

PANED CYN NOSWYLIO

Nos Fawrth 15 Rhagfyr 2020 am 7.30 yr hwyr



Byddwch yn derbyn y dolenni ar gyfer y cyfarfodydd hyn mewn da bryd



Yr Anrheg Nadolig Perffaith

Y TYST – archeb am y flwyddyn 2021!

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwys Thomas



CYMDEITHAS A GWEDDI AC OEDFAON DIGIDOL YN YSTOD YR AIL GLO



Dydd Sul 1 Tachwedd 2020



Cymdeithas a Gweddi

Bu cyfle i ni gymdeithasu a sgwrsio cyn i'r Dr Eirian Lewis (Bancyfelin) ddarllen o'r Beibl (Mathew 6:25-34) a Rhian Bowen (Cana) ein harwain mewn gweddi. Braf oedd cydgyfarfod fel hyn cyn yr oedfa

foreol.

Yr Oedfa Ddigidol

Cymerwyd rhan yn yr Oedfa Gymun hon gan ein Gweinidog, y Dr Huw Michael (Darlleniad: Marc 14: 12-16 - Gwledd y Pasg gyda'r Disgyblion) a'r Dr Angharad Wyn (Gweddi).

Yn ei myfyrdod, esboniodd ein Gweinidog wreiddiau Gŵyl y Pasg, un o'r gwyliau Iddewig mwyaf pwysig sy'n dathlu rhyddid yr Iddewon. Cadwodd Iesu'r Wyl gan roi ystyr amgenach i gymryd y bara a'r gwin na'r hyn sydd yn nefod yr Iddewon. Arwyddion o gorff a gwaed Iesu yw'r bara a'r gwin sy'n ein hatgoffa mor ddrud oedd ei aberth yn cadw'r byd. Bu rhan gan bob un ohonom yn paratoi'r Bwrdd Cymun gan i ni wneud hynny ar ein haelwydydd unigol cyn cydgyuno yn un teulu dan arweiniad ein Gweinidog.

Dydd Sul 8 Tachwedd 2020



Cymdeithas a Gweddi

Pleser oedd derbyn gwahoddiad gan Ofalaeth y Barri a Phenarth i ymuno â nhw ar Zoom. Ddolch i Euryr Ogwen Williams am y syniad, i Owain Rhys

Rudge am y trefiadau ac i'r Parchedig Kevin Davies am ei eiriau o groeso. Bu'n gyfle i ni cymdeithasu, cyfnewid syniadau a chynlluniau a tnafod posibiliadau. Roedd hi'n gyfle hefyd i gwrdd â hen gyfeillion, gan gynnwys rhai â chysylltiadau â Chaerfyrddin. Cawsom ddarlleniad gan Beti-Wyn (Salm 29) a Gweddi gan Kevin cyn diwedd.

Yr Oedfa Ddigidol

Roedd yr Oedfa Ddigidol ar Sul y Cofio yng ngofal ein Gweinidog, gyda chymorth Gareth Gravell (Darlleniad – 5 Mathew – Y Gwynfydau) a Gwenan Jones a Carina Siku (Gweddïau). Yn ei myfyrdod dywedodd ein Gweinidog fod y Sul arbennig hwn eleni'n gyfle i ni, yn rhydd o unrhyw rwysg a rhodres, gofio'n dawel a gweddigar ar ein haelwydydd am bawb sy'n cael eu colli o ganlyniad i ryfel a gormes a thrais – nid yn unig ar faes y gad ond hefyd sifiliaid cyffredin ar lawr gwlad, a'r rhai sy'n dioddef yn gorfforol ac yn feddyliol, yn ddiagrtref ac ar ffo. Mae cyfrifoldeb arnon ni i ymrwymo'n ddifriol i wneud popeth yn ein gallu i hyrwyddo achos heddwch a chymod yn ein byd heddiw. Ein hargyhoeddiad ni fel Cristnogion yw mai Efengyl Iesu yw'r unig allu sy'n medru gwireddu'r freuddwyd o fyd o heddwch a chyfiawder a diogelwch a hefyd ryddid i holl aelodau teulu'r ddynoliaeth.

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 10 Mawrth 2021 am 7 ar Zoom

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA A BLAENORIAID BANCYFELIN

Nos Fercher 24 Mawrth 2021 am 7

Naill ai yng Nghana neu dros Zoom

CASGLIAD OLAF AM Y FLWYDDYN Y SUL OLAF AR GYFER DERBYN EIN CYFRANIADAU AM ELENI YW 13 Rhagfyr 2020

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Catrin Mair Jones....

NADOLIG FY MHLENTYNDOD




Cefais fy ngeni a'm magu mewn pentref bach o'r enw Cellan sydd tua dwy filltir a hanner o dref Llanbedr Pont Steffan. Ar ein haelwyd ni roedd Mam-gu (sef mam Mam), fy rhieni a fy chwaer fach Bethan. Cefais y fagwraeth orau bosib a phlentyndod hapus iawn.



Roedd adeg y Nadolig yn gyfnod yr edrychem ymlaen ato'n eiddgar. Hoffem yr holl gyffro ynglŷn â'r Nadolig. Byddai'r capel bob amser yn chwarae rhan flaenllaw yn nathliadau'r Nadolig. Cynhelid gwasanaeth carolau undebol y plwyf naill ai yng **Nghapel yr Erw** sef Capel yr Annibynwyr lle roedd ein teulu ni'n aelodau, Capel Undodaidd Caeronnen neu Eglwys y Plwyf. Byddwn i a'm chwaer bob amser yn cymryd rhan yn y gwasanaeth Nadolig ble bynnag y byddai'n cael ei gynnal. Bydden ni'n darllen neu'n gweddïo bob blwyddyn a byddai Mam wedi sicrhau ein bod wedi paratoi'n drylwyr ar ei gyfer drwy ymarfer ac ymarfer. Yn fy arddegau bues hefyd yn canu'r organ yn y gwasanaeth carolau gyda fy Mam.

Ar ddiwrnod Nadolig, y pump ohonom fyddai'n dathlu gyda'n gilydd. Fel arfer byddem wedi gweld y teulu agosaf a throsglwyddo anrhegion yn yr wythnos cyn diwrnod Nadolig. Byddem yn cael llond bol o fwyd, yn cynnwys twrci a'r holl drimins a phwddin Nadolig byddai Mam-gu wedi'i wneud a'i ferwi ei hunan ers oriau.



Byddai'r gacen Nadolig wedi cael ei gwneud rhyw ddeufis ynghynt. Roedd Mam a Mam-gu yn coginio popeth eu hunain a phopeth yn flasus tu hwnt. Mae'r traddodiad yna'n para hyd at heddiw - mae Mam yn gwneud tair cacen Nadolig bob blwyddyn, un iddyn nhw, un i'm chwaer ac un i'n tŷ ni.

Ar fore Nadolig, dw i'n cofio nad oedden ni'r plant byth yn mynd lawr grisiau i'r ystafell fyw ar ein pen ein hunain. Roedden ni bob amser yn gofyn i

Mam neu Dad ddod gyda ni rhag ofn bod Santa Clos dal yno. Byddem bob amser yn hapus gyda'n anrhegion. Rwy'n cofio cael dol '*Tiny Tears*', beic glas, Llyfr



Annual '*Dallas*' (roeddwn yn dwli ar y rhaglen honno) a gêm fwrdd '*Blockbusters*'. Mae'r gêm honno wedi cael adfywiad yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghae Seiri! Byddem yn agor ein hanrhegion oddi wrth y teulu a ffrindiau hefyd yn y bore. Roedden ni'n cael anrhegion gwahanol ac unigryw oddi wrth ein modryb Mary Jenkins oedd yn byw yn Llundain ac wedi gwirioni cael bag bach gwyrdd siopa o Harrods unwaith.

Un flwyddyn, gwnaeth Santa Clos ymddangosiad ar fore Nadolig! Mrs Davies y Post fel y'i gelwid, a oedd yn cadw'r siop a'r swyddfa bost yn y pentref, wedi pnderfynu galw i weld plant y pentref. Dyna beth oedd syrpreis!



Byddwn i a'm chwaer yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau gyda'r ysgol a Chôr yr Urdd Llambod ac yn mwynhau gwneud hynny. Byddem hefyd fel pentref yn mynd o amgylch i ganu carolau gyda Sefydliad y Merched ac yn codi arian tuag at elusennau lleol bob blwyddyn. Byddem fel plant y pentref yn edrych ymlaen at gael parti Nadolig yn festri Caeronnen bob blwyddyn a chael '*Selection box*' i ddod adref gyda ni.

YN DIWEDDARACH yn fy mywyd ac yn rhinwedd fy swydd fel athrawes, gallaf ddweud taw un o'r anrhegion gorau a gefais oedd darganfod ar fore Nadolig fy



mod wedi ennill cystadleuaeth *Radio Cymru* '*Carol Ni*' gydag Ysgol Iau Aberteifi ym 1991. Roeddwn wedi cyfansoddi tôn ar gyfer Carol Nadolig sef

'*Rhyfeddodau'r Geni*' ac roedd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar y radio ar fore Nadolig. Rwy'n gobeithio bod y plant bach hynny oedd yn y côr wedi cael yr un wefr â fi! Diwrnod Nadolig i'w gofio!

HWYL DROS YR WYL!

BLE YN Y DRE?



1



2



3



4



5




6



**Beth am roi cynnig arni
dros y Nadolig?
Atebion yn ein rhifyn nesaf**

**Diolch i Gareth Gravell am y gwaith
paratoi**





LLOERGANIADAU

Fflur Dafydd

Y Lolfa: £9.99

Tachwedd 2020

Trysor o gyfrol o atgofion yr awdures amryddawn, Fflur Dafydd, a fu erioed yn syllu tuag at y lloer....

POBOL Y TOPIE


Richard E Huws

£12

Cyfrol ddwyieithog, yn cynnwys hanes difyr dros 100 o ddynion a merched a wnaeth gyfraniad i fywyd cyfoethog un o gymunedau gogledd Ceredigion, tra bo eraill a anwyd yn Bont-goch, wedi gwneud eu cyfraniad y tu hwnt i Geredigion, mewn rhannau eraill o Gymru, yn Lloegr, ac mewn nifer o wledydd tramor gwahanol.

Cyswllt

rehuws@aol.com



YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



YSGOL SUL DROS ZOOM A PHETH O WAITH Y PLANT



Llun Mali



Llun Greta a Miriam



Llun Meredydd



Ifanc@Priordy

Trefniadau Nadolig!



Sul, 6 Rhagfyr am 10
Newid yn y drefn
Oedfa Deulu yn y Capel
gyda Beti-Wyn
Oedfa Nadolig Ddigidol
dan arweiniad PIP am 11

Sul, 13 Rhagfyr am 10
Newid yn y drefn
Oedfa yn y Capel gyda
Tudur Dylan Jones
Cwrdd Nadolig Digidol
y Plant am 11

NI CHYNHELIR Y CWRDD PLANT YN
Y CAPEL ER DIOGELWCH PAWB

Cadwch lygad am Galendr Adfent Y Priordy ar
dudalen Facebook Y Capel o 1 Rhagfyr ymlaen!

Nadolig Llawen i chi i gyd,
Beti-Wyn xx

Chwilotair Y Nadolig

Llythrennau sengl yn unig

W Y
N N
P H Q T
V O X T
H Q D T H I
W E R O U C
E C U K T G T C P R E S E B B E C U P Q
W B A B A N G Y L I O N O I U G K W V K
M T L W E G B G O E D G A G B C E W
N Q J O S E F F R S V F E F C T
E V K Y T N U N E U N I T W
E M T H A I N S L D L X
M S A G L I O E N I A I X H
B Y I O E I O J V K T A U T
H J L R G H E D D W C H I E H G
S O A R T E I P D L D U J X
M D C G E A M G U T A C J E
A V F O U W X F U L
N R T D S B J C
Q R J T

Gethin Hopley

ANGYLION AUR BABAN BETHLEHEM BUGEILIAID CAROLAU
DATHLU DOETHION GENI HEDDWCH HEROD IESU JOSEFF MAIR
MYR NADOLIG PRESEB THUS

GETHIN HOPLEY

**Y cyntaf i ennill tlws Y Priorddy am ymdrech arbennig ym maes
Addysg Grefyddol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**



Torch yr Adfent



**Diolch i Gill Owens
am ei gwaith**



AP CEREDIGION

Ganed David Lewis (Ap Ceredigion) yng Nghilcennin, 24 Awst 1870. Derbyniodd ei addysg yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan cyn gwasanaethu'r eglwys yn gurad yn y Rhondda, Llanbrynmair, Mallwyd a Llanllechid ac yn rheithor Llansadwrn ar Ynys Môn a Deon Gwlad Tindaethwy. Bu farw yn Llansadwrn ar 19 Hydref 1948.



Cyfrannodd lawer i nifer o gofnodolion Cymraeg ei ddydd a bu'n olygydd y golofn farddonol yn *Y Llan*, wythnosolyn yr Eglwys yng Nghymru. Roedd yn un o olygyddion *Emynau'r Eglwys* a gyhoeddwyd ym 1947 sy'n cynnwys nifer o'i emynau a'i gyfieithiadau a'i garolau. Meddai'r *Bywgraffiadur Cymreig*: '*Nid oes arbenigrwydd mawr yn ei ganu, ond y mae'n swynol a llithrig, ac yn nodweddiadol o'i gyfnod*'.

Mae'r Parchedig Ganon Haydn Rowlands, Caerfyrddin, yn nyddaiu plentyndod ar Ynys Môn ar y pryd, yn cofio Ap Ceredigion yn ei henaint yn Llansadwrn. Mae'n esbonio fel y codwyd nifer fawr o feibion ffermydd yng Ngheredigion, yn cynnwys Ap Ceredigion, yn offeiriaid, drwy ddylanwad Ysgol Ystrad Meurig – ysgol agored i fechgyn Ceredigion yn cynnig addysg am ddim yn y Lladin ac yn egwyddorion Eglwys Loegr. Gwnaeth Haydn Rowlands gyfraniad arbennig i'r Eglwys yng Nghymru a'r Gymraeg dros y blynyddoedd gyda'i waith gwerthfawr tu hwnt fel golygydd *Y Llan*. Mae Ap Ceredigion yn uchel ei barch yn ei olwg a gall ddyfynnu rhannau o'i waith ar ei gof.



Mae dau gyfieithiad gan Ap Ceredigion yn **Caneuon Ffydd**, y naill yn emyn Cymun (665) a'r llall yn Garol (456), sef cyfieithiad o garol poblogaidd **Phillips Brooks** (1835-93), clerigwr o America, '*O Little town of Bethlehem*'. Mae'n debyg i Brooks gael ei ysbrydoli i ysgrifennu'r garol wrth deithio o Jerwsalem i Fethlehem adeg y Nadolig ym 1865. Fel y dywed **Cydymaith i**

Ganeuon Ffydd: ‘Gwahanol iawn fyddai’r ysbrydoliaeth pe bai’n gwneud yr un daith heddiw!’ Dair blynedd yn ddiweddarach ym 1868 y cyhoeddwyd y garol.

Mae’n debyg hefyd mai’r garol ‘*O little town of Bethlehem*’ (*Caneuon Ffydd* 451) o waith Brooks a ysbrydolodd Ben Davies ‘Pant-teg’ (1864-1937) i gyfansoddi ‘O dawel ddinas Bethlehem’ - o leiaf yn rhannol. Er bod cyfatebiaeth eitha tebyg ar y dechrau rhwng gwaith Brooks a Ben Davies nid yw’n cael ei chynnal drwyddi draw fel yng ngwaith Ap Ceredigion. Tri phennill sydd i’r garol ac nid yw’n gyfieithiad. Mae gwaith Ap Ceredigion ar y llaw arall yn cynnwys pum pennill, fel sydd yn emyn gwreiddiol Brooks er mai dim ond pedwar ohonynt a welir ran amlaf yn y llyfrau emynau Saesneg.

Geiriau Ben Davies sydd fwyaf adnabyddus a phoblogaidd ond rhown flaenoriaeth y Nadolig hwn i waith Ap Ceredigion, yn enwedig gan ein bod ym mlwyddyn **canmlwyddiant a hanner ei eni**. Dyma bennill cyntaf ac olaf ei gyfansoddiad:

**O ddinas fechan Bethlehem,
mor dawel gwelir di
mewn hun, mor bêr o dan y sêr
sy’n distaw deithio fry;
yn dy heolydd tywyll di
y mae Goleuni’r byd,
ac ynot ti mae’n gobaith ni
a’n hofnau oll ynghyd**

**O sanctaidd blentyn Bethlehem,
tyrd atom, gwrando ni,
trig di’r awr hon o dan y fron,
ein Brenin ydwyt ti;
fe seinia côr yr engyl glân
eu carol yn ein clyw,
tyrd atom ni ac aros di
Emanwel, ein Duw.**



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org
--

Iris Owen.....

Cardiau Cyfarch Amnest Rhyngwladol



Yr adeg yma bob blwyddyn rydym yn cael cyfle i anfon cardiau cyfarch at unigolion sydd yn dioddef anghyfiawnderau ledled y byd. Fe fu aelodau ein capeli'n barod iawn i lofnodi'r cardiau parod fel rhan o'n gwasanaethau. Ond oherwydd y pandemig ni fydd hynny'n bosibl eleni. Yn hytrach, mae modd cefnogi'r dioddefwyr trwy lofnodi deisebau ar y we neu drwy anfon llythyron neu gardiau atynt.

Eleni mae aelodau Amnest Rhyngwladol yn y Deyrnas Unedig yn canolbwyntio ar bedwar achos yn arbennig ac mae modd i chi ddod o hyd iddynt ar y safle we canlynol:

<https://www.amnesty.org.uk/write-for-rights>.


O'r holl achosion anghyfiawn yn y byd sy'n dod i sylw Amnest, dewisir deg achos i ganolbwyntio arnynt yr adeg hon o'r flwyddyn. Petaech yn dymuno cael rhagor o wybodaeth amdanynt mae croeso i chi fynd i'r safle we yma:

<https://www.amnesty.org.uk/write-rights-2020-get-started>.

Yn y llyfryn hwn hefyd gellwch weld y gwahaniaeth i fywydau ac amgylchiadau'r dioddefwyr a wnaed gan ymgyrch y llynedd. Hoffwn felly eich annog i weithredu eleni eto er mwyn adfer hawliau dynol pob unigolyn.



COFIWCH BARHAU I GADW STAMPIAU A CHETRYS



Santa Clos-y-graig

Go brin y byddai coeden Nadolig mewn unrhyw gartre yng nghyfnod fy mhentyndod. Bydde pob capel ac eglwys yn cynnal eu 'Noson Christmas Tree' eu hunain yn y festri ac roedd y noson honno yng Nghapel Closygraig gyda'r nosweithiau pwysicaf yn y flwyddyn i ni'r plant. Dim ond i'r noson honno y byddai Santa Clos yn dod, (nid Siôn Corn oedd e'r dyddiau hynny!)


Bydde'r plant a'r oedolion yn cael parti Nadolig gyda digon o fwyd, ac eitemau o bob math gan yr aelodau i ddilyn. Tua diwedd y noson, bydden ni'r plant i gyd yn mynd i sefyll yn yr iard tu fas i'r festri i ddisgwyl dyfodiad Santa Clos. Yna'r gweiddi a'r cynnwrf wrth weld goleuadau car Santa Clos yn dod lawr y rhiw yn araf bach tuag at y festri, a'i weld wedyn yn camu allan o'r car. Y ddefod nesaf oedd i bob plentyn redeg yn ôl i'r festri ac eistedd yn y tu blaen nes clywed y gnoc enfawr ar ddrws y festri a phawb yn amneidio a gweiddi



- 'Ma fe 'ma. Ma' fe wedi dod!' Yna, fe fydde'r gweinidog yn agor y drws ac yn estyn croeso i Santa Clos a phawb wedyn yn curo dwylo. Bydde Santa yn eistedd yn y tu blaen yn wynebu'r gynulleidfa, a phob plentyn yn ei dro'n mynd allan i dderbyn ei anrheg syml.

Yn ôl traddodiad, y dasg nesa i bawb, ar wahân i'r plant, fyddai ceisio dyfalu pwy oedd y Santa. Roedd y gyfrinach flynyddol yng ngofal Alun Siop Albert. Alun fyddai'n trefnu popeth a mawr fyddai'r dyfalu. Ond, cyn i Santa adael y festri fe fydde'r sibrydion rhwng yr aelodau wedi dadansoddi'n gywir pwy oedd e'n flynyddol – heblaw am un tro.

A'r tro hwnnw fe ofalwyd bod y farf wen a'r aeliau a'r mwstach yn fwy trwchus nag arfer dros ei wyneb o dan y clogyn coch. Gwisgai fenig rhag i neb weld ei ddwylo ac fe wrthododd siarad heblaw ambell ebychiad pwrpasol. A dyna'r unig dro i'r holl aelodau fethu'n llwyr yn y dasg flynyddol o adnabod Santa Closygraig.



Mawr fu'r dyfalu am ddyddiau lawer.

'Alun wedi dod â rhywun o Gaerfyrddin a neb yn ei nabod e,' oedd y farn gyffredinol. 'Na, Sais oedd e. Na pam nath e ddim siarad,' oedd cynnig gwraig Tŷ Capel. Pwyswyd ar y gweinidog i gyhoeddi ar ddiwedd y gwasanaeth y Sul canlynol pwy oedd Santa Closygraig y flwyddyn honno, ac fe wnaeth hynny ar ôl i Alun rannu'r gyfrinach ag e.

'Wel gyfeillion, Mr Jack Griffiths, Llwynbedw, oedd Santa Closygraig eleni', meddai gan droi at fy nhad a eisteddai gyda Mam a finne yn y sedd flaen i'r chwith o'r pulpud. Nodiodd Nhad i gadarnhau'r cyhoeddiad. Plentyn oeddwn i, ac fe allai'r aelodau faddau i fi am beidio ag adnabod Nhad yn ei ddillad Santa Clos. Ond beth am Mam? Fe ddechreuodd hi gochi ac ysgwyd ei phen mewn rhyfeddod llwyr. Ni allai gredu'r peth, yn enwedig gan ei bod hi wedi bod gyda'r ucha ei chloch yn ceisio dyfalu pwy oedd Santa Closygraig y Nadolig hwnnw.

Druan o Mam, fe dynnwyd ei choes am wythnosau. 'Synnu atoch chi Mrs Griffiths, ddim yn nabod eich gŵr!' ac 'O leia wi'n gwbod ble mae ngŵr i bob amser!' Do, fe gafodd Nhad bryd o dafod nes ei fod e'n tasgu gyda Mam, yn dilyn y cyhoeddiad mai fe oedd Santa Closygraig a hithe heb wybod hynny.

Dyn swil a thawel iawn oedd Nhad. Heblaw am wasanaethau'r Sul, gartre y mynnai fod. Gwyddai Alun, trefnydd Santas Closygraig, na fydd

aelodau'r capel byth, byth yn dychmygu y gallai Nhad chwarae rôl yr hen Santa.

Amhosibl! Sut y darbwylodd Alun e i wneud ei unig ymddangosiad cyhoeddus gerbron cynulleidfya, wn i ddim, achos pan adawodd Mam a fi'r tŷ am 'Noson Christmas Tree'

Closygraig y noson honno roedd Nhad yn eistedd yn ei oferôls o flaen y tan yn smocio'i wdbeins yn braf. A phan ddaethon ni adre, doedd e ddim wedi symud modfedd o'r fan! A dyna hanes Santa Clos Closygraig yn 1948.



**(Allan o hunangofiant Peter Hughes Griffiths
O LWYFAN I LWYFAN)**

NADOLIG GILLIAN ELISA



*Gillian Elisa, Actores, Cantores a Digrifwr, a
Cariad y Chihuahua*

Sut ydych chi'n treulio'ch dydd Nadolig?

Fel arfer gyda fy rheulu nôl yn Llanbed (fy nhad a'm mrawd) ond dydyn nhw ddim yma bellach. Y ddwy flynedd ddiwedda bues i lan yn Stroud gyda fy nghefnder a'i deulu a braf iawn oedd hynny yng nghanol plant bach fy nghefndryd (3 o fechgyn bach dan 6 oed). Mor wahanol i beth oeddwn i'n arfer ei wneud adeg y Nadolig. Eleni, does gen i ddim cynlluniau. Dw i wedi cael gwahoddiad eto i fynd i Stroud gan fod fy nith wedi cael merch fach a lichen i ei gweld hi a gweld shwd mae'r bechgyn yn ymdopi.

Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs Cyntaf

Eog wedi'i ferwi gyda salad afal a radish

Ail Gwrs

Torth Nadolig llysieuol gyda chastanwydden, ysgewyll, panas ac erfin. Tatws melys wedi'u rhostio, pys, saws afal (afalau o'r

ardd), saws llugaeron, stwffin (dw i'n ei wneud bob
blwyddyn gyda bara a saets a theim, halen a phupur a lot o
fenyn Sir Gâr), grefi llysieuol a selsig llysieuol Linda McCartney.
Y trimins i gyd. Llond plât o ddrygioni!

Trydydd Cwrs

Hynny yw, os bydda i ddim wedi bwyta gormod yn barod! Pwddin
Nadolig. Gwna i dreial gwneud un fy hunan eleni neu dreiffi -
neu hyd yn oed fy nghrwmbl afalau dw i'n ei wneud drwy'r
amser. Mae'n dibynnu pa mor llawn ydw i. Ac i gwplâ'r wledde ga
i gaws brie, bisgedi a grawnwin gyda fy siytni afal sbeislys a
ffigys. Colapso wedyn o flaen y teledu!


Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

Llwyddo i gael fy mrawd i aros 'da fi yn y fflat dros y Nadolig yn
Ne Croyden, Llundain nôl yn 2015 er mwyn iddo fe gael gweld
Billy Elliot pan oeddwn i'n chwarae rhan y fam-gu. Cawsom
Nadolig bendigedig a'r Labrador, Jessie, y King Charles,
Cavalier Sheltie a'r ddwy gath (Musk a Treacle) yn fyw y pryd
hynny hefyd. Joio ni. Gwnaeth hyn i fi deimlo'n hapus iawn.
Cenhadaeth wedi'i chwblhau.

Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

*Noël, Noël, Noël, Noël,
Fe aned Brenin Isrâel.*

Mae'r garol yma'n un hapus, hudolus, effeithiol a hiraethus ac
yn rhoi gwir ystyr y Nadolig i mi ac yn f'atgoffa o'r Nadoligau
llon pan oeddwn yn blentyn (o tua 4 i 11 oed) gyda fy mrawd
Alun a Mam a Dad yn Llanbed. Mae Noël hefyd yn adrodd stori
geni'r Iesu'n glir ac yn llawen a hyn i gyd mewn un garol. Mae
wastad yn dod â deigrin hiraethus i fy llygaid.



DWI ISIO BOD YN...

Huw Jones

Y Lolfa: £19.99

Hydref 2020

Taith drwy fywyd Huw Jones

GAIR O DUBAI

Helo, Gaynor ydw i. Ces i fy ngeni a fy magu yn Aberystwyth. Dw i'n cofio mynd gyda fy rhieni (Huw a Tegwen Griffiths), fy mrodyr a'm chwiorydd i Gapel St Paul's yn Aber. Un o fy hoff atgofion o fynd i'r capel yn ferch fach oedd cael cario basged o ffrwythau i'r Cwrdd Diolchgarwch.

Ar ôl gadael Aber, wnes i hyfforddi fel nyrs a bues i'n gweithio yn Ysbyty Glangwili Caerfyrddin ac Ysbyty'r Waun yng Nghaerdydd.

Yna dyma un o fy ffrindiau'n dweud "*Beth am nyrsio yn Al Ain?*" a dyna fi'n cyrraedd y Dwyrain Canol ym mis Ionawr 1980. Roedd hi mor boeth er mai mis Ionawr oedd hi!! Symudais wedyn i Sharjah (Emirate arall).



Un o'r atgofion gorau sydd gen i am nyrsio yn y Dwyrain Canol yw gofalu am yr actor **Derek Nimmo**; roedd e'n falch iawn o'r gofal ac yn hapus fy mod i'n dod o Gymru! Ond erbyn hyn, dw i wedi gadael nyrsio ac yn dysgu plant 3-4 oed sy'n llawer o hwyl!

A dyma fi nawr ers dechrau'r cyfnod clo yn gwrando ar y gwasanaethau o Gapel y Priordy. Chwarae teg i Beti-Wyn am wneud y gwasanaethau mor dda. Mae hiraeth arnaf pan dw i'n clywed yr emynau yn enwedig! Rwy'n aml yn cael cymundeb gyda chi ac yn meddwl am bawb. Dw i hefyd yn hoff iawn o weld beth sydd ymlaen gyda'r plantos bach.... dw i'n hoff iawn o weld y gweithgareddau a chael clywed am yr Ysgol Sul.



Dw i'n gwybod bod Greta, merch fy nith, wrth ei bodd hefyd a gwnes i fwynhau gweld y lluniau o'r gwasanaeth yn y maes parcio.... mae "facebook" yn gallu bod yn beth da iawn weithiau!

GOBEITHIO y gallaf ddod i gwrdd â chi i gyd y flwyddyn nesaf yn y capel! Gofalwch ar ôl eich hun a chofion gorau o Dubai!


Diolch yn fawr iawn i Gaynor am yr erthygl hon. Mae Gaynor yn fodryb i'r Dr Angharad Wyn a'r plant Greta a Miriam. Edrychwn ymlaen at groesawu Gaynor atom yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, pob dymuniad da iddi yn Dubai.



YN DYMUNO CYFAMODI?

DENNIS JONES
YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI

Croeso i chi gysylltu ag e!



BLODEUGERDD WALDO

**Teyrnaged y Beirdd
gol
Eirwyn George**

Y Lolfa: £7.99

Tachwedd 2020

**Dros 60 o gerddi amrywiol gan
40 o feirdd wedi'u cyflwyno i'r
addysgwr, yr heddychwr, y
cenedlaetholwr a'r bardd o
sir Benfro**

YMGYRCH TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR




Nia o'r Cyngor Sir



**£236 a llond car o
anrhegion
Gwych!**





FY LLYFR ENGLYNION gol Mererid Hopwood

**Medi 2020
Barddas: £6.95**

Casgliad gwerthfawr ac unigryw o englynion i blant gan wahanol feirdd. Mae pob un o'r 22 englyn yn dweud stori neu'n disgrifio, rhai yn englynion y gall plant yr oed hwn uniaethu â hwy a rhai englynion traddodiadol sy'n debyg o fod ar gof cenedlaethau o blant. Yn ogystal, ceir geirfa a nodiadau i helpu'r darllenwyr ifanc.

CRISTION -- Cyhoeddiad deufisol

Am gopi – Cysylltwch â Sulwyn Thomas



AR GRWYDR ETO

Goronwy Evans


Y Lolfa: £9.99

Tachwedd 2020

**Hanes rhai o grwydriaid
nodedig**

**Cymru yn cynnwys Dewi
Emrys a W H Davies**

**Dilyniant i Ar Grwydr gan yr
un awdur**



NADOLIG SHÂN COTHI



Cantores a Chyflwynydd Radio a Theledu

Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?

Dw i'n draddodiadol iawn adeg y Nadolig a ddim yn gallu dychmygu treulio'r Wyl heb fod yng nghwmni'r teulu. Ro'n i wastad yn mynd mas â Caio (fy ngheffyl) ar fore'r Nadolig, ond falle eleni y bydd hi bach yn anodd achos mod i'n darlledu a choginio! Mae Mam wastad yn paratoi gŵydd ac os yw'r teulu'n dod ata i fe fydd pawb yn pitsho mewn gyda'r danteithion a'r paratoadau. Syml ond chi'n gwybod beth chi'n gael. Eleni fe fydda i'n darlledu Bore Cothi yn fyw ar ddydd Dolig rhwng 8 a 10 y bore ac felly bydd angen bod yn DREFNUS! Cofiwch gadw cwmni i fi ar BBC Radio Cymru ac fe gawn ni gynnal ysbryd ein gilydd a dymuno Nadolig Llawn i'n gilydd!

Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs Cyntaf

Rhywbeth fel cawl berw'r dŵr

Ail Gwrs

Cinio Nadolig delfrydol: Gŵydd mam a'r trimins i gyd.

(Dewis o gig fel arfer achos rydyn ni'n tueddu i fwyta llai o gig hefyd - achos dw i'n DWLU ar neud stwffin ffein. A does dim byd ffeinach na phigo ar hwnnw i swper ac ar Ddydd San Steffan gyda phicls a chaws a chracys!)

Trydydd Cwrs

PWDIN PLWM wrth gwrs! Roedd mam yn arfer gwneud un yn flynyddol! A saws brandi! Mmmmmm!


Beth yw'r anrheg Nadolig gawsoch chi erioed?

Beic Triumph glas – roeddwn i mor gyffrous nes i fi ei reidio'n rhy wyllt i lawr yr hewl i ddangos i ffrind drws nesa a chwympo i'r clawdd! Dw i di cal lot o bethe hyfryd a defnyddiol hefyd dros y blynyddoedd. Ges i geffyl palomino, 'Nelson', a dyna fy ngheffyl cyntaf pan o ni'n bymtheg oed. Dw i ddim yn meddwl taw anrheg Dolig oedd e - ond oedd e'n teimlo fel hynny. Breuddwyd yn dod yn wir.

Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

Hoff garol? Wwww anodd... ma na gymaint o rai hyfryd. Dw i wrth fy modd â '*Suai'r Gwynt*', '*O Sanctaidd Nos*', a '*Carol y Gannwyll*' John Rutter. Buodd Cwllwm yn canu *Carol y Gannwyll* am flynyddoedd a chafon ni lot o sbort yn ein cyngherddde Nadolig ac mae geirio Elin Jones yn gweddu yn berffeth i'r alaw. Dw i hefyd yn dwli ar ganeuon y Nadolig fel '*Nadolig Pwy a Wyr*' a '*Have yourself a Merry Little Christmas*' - achos maen nhw mor hyfryd i'w canu. Werth aros blwyddyn on'd yw e...ffili aros!

Nadolig Llawn i chi i gyd a iechyd da dros yr Ŵyl.



OCHR TREFORYS O'R DRE

Atgofion drwy Ganeuon

Neil Rosser

Carreg Gwalch: £8.00

Medi 2020

Darllen dros y Dolig

Y disgwyl yw'r peth, dyna sy'n dod â hud y Nadolig atom ni, a phob blwyddyn

mae'n ymddangos fel petai Nadolig yn dod yn gynt ac yn gynt. Eleni, efallai, mae'n

wahanol, gall y Nadolig ddim dod yn ddigon clou. Dim ond diwrnod yw'r Nadolig mewn gwirionedd, pedair awr ar hugain, fel pob dydd arall. Ond y mae'r adeiladu tuag at y diwrnod hwn yn dipyn o beth. Y mae'r felin fasnach sy'n dechrau troi tua diwedd mis Hydref yn dod i ryw uchafbwynt gwallgo, lloerig erbyn canol Rhagfyr ac mi fyddwn ni'n mynd amdani gyda'n holl drefnu, prynu, bwyta a dathlu ffwl pelt. Bydd eleni ychydig yn wahanol i'r arferol ond efallai y bydd ein hawch am ddathlu'r Nadolig wedi'i finiogi o'r herwydd.



I'n cael ni 'yn y mŵd' ar gyfer y Nadolig, yn aml fe fyddwn ni'n gwyllo ffilmiau Nadoligaidd er mwyn deffro'r nostalgja, ac mae gwneud rhywbeth ar y cyd â ffrindie neu deulu yn creu agosatrwydd. Ac wrth gwrs rydyn ni'n gwyllo'n ffefrynnau drosodd a thro, fel rhyw fath o danlinellu, o atgyfnerthu, o ailadrodd – ac mae hynny'n gysur, achos mae ffilmiau Nadoligaidd yn dueddol o fod yn rhai feelgood. *It's a Wonderful Life*, *Nativity*, *Miracle on 42nd Street*, *Y Dyn Nath Ddwyn y 'Dolig*, maen nhw wedi dod yn rhan o'n traddodiad Nadoligaidd erbyn hyn, hynny a chanu melfedaidd Bing Crosby, Michael Bubl   a Delwyn Si  n – 'Un Seren' unrhyw un? Ddyffeia i chi i wrando ar y g  n hyfryd honno heb gael lwmp yn eich gwddf.

Ond ydyn ni'n darllen llyfrau Nadoligaidd? Heblaw am stori'r geni, wrth gwrs. Efallai bod rhai ohonom yn darllen *A Christmas Carol* gan Charles Dickens, neu 'A visit from St Nicholas' gan Clement Clarke Moore sy'n cychwyn "Twas the night before Christmas ..." Mae gen i fy ffefrynnau, cyfrol ysgafn o'r enw *An Almost Perfect Christmas* gan Nina Stibbe a *Christmas Pudding*, sy'n nofel gan Nancy Mitford, sef stori gomig llawn troeon trwstan am deulu o Saeson posh.


Eleni, ces gyfle na fydden i wedi gallu'i wrthod. Gwahoddwyd fi i olygu cyfrol o gerddi a phytiau byr o ryddiaith am y Nadolig gan

Barddas. *Llyfr Bach Nadolig* yw teitl y gyfrol, ac mae'n gyfrol fechan hardd (er mai fi sy'n dweud). Ces gasglu dau ddeg pedwar o gyfraniadau ynghyd gan feirdd a llenorion ardderchog. Dau ddeg pedwar cyfraniad, yn union fel cael dau ddeg pedwar anrheg llenyddol y tu ôl i ffenestri calendar adfent. Mae trysor ar bob tudalen.

Dechreuais arni ym mis Mai, gan wahodd cyfraniadau gan bobl fel Jon Gower, Elin Meek, Rhys Iorwerth, Sian Northey, Lowri Cooke, Mererid Hopwood, Twm Morys, Mari George, Anni Llŷn a Manon Steffan Ros ... mae mwyl, llawer mwyl ... Yna, dros yr haf fe ddechreuodd y cyfraniadau gyrraedd. Roedd hi'n gwmws fel Nadolig! Ac eto, roedd hi'n ganol haf a thinsel a'r ŵyl ymhell o'n meddyliau ni. Er, efallai fod y flwyddyn hon yn flwyddyn ble roedd pobl yn dymuno peidio â meddwl am eu presennol ynghanol y cyfnod clo am ei bod hi'n flwyddyn mor drybeilig o ryfedd ... Ac o dipyn i beth, daeth y gyfrol ynghyd.

Mwynheuais ddarllen y cerddi cain a rhyddiaith rhugl. Ac ar ben hynny, casglwyd ffotograffau ynghyd o bob cwr o Gymru i lenwi a llonni'r gyfrol. Dyluniwyd y gyfrol gan Olwen Fowler, ac mae ei gwedd hi'n hyfryd a Nadoligaidd. Rhaid i mi ddiolch i Alaw Mai Edwards yn Barddas am ei chymorth parod a rhadlon hefyd. Mae'r cerddi a'r darnau rhyddiaith yn hyfryd, bob un yn atgofus, yn brydferth ac yn llawn hyd yr ymylon o synhwyrâu'r Nadolig. Mae gennym ni bob un ohonom atgofion am Nadoligau a fu, maen nhw'n lapio o amgylch ein cof fel haenau o bapur lapio, mae'r gyfrol hon yn fy atgoffa i o rannu straeon ac o fwynhau ynghwmni ffrindiau.

Felly, rydw i wedi bod yn y *zone* Nadolig ers ganol y flwyddyn, cofiwch ... ac wedi mwynhau bob munud. Yn bersonol, gall Nadolig ddim dod yn rhy gyflym eleni, wedi'r holl brofiadau pandemig a gafwyd, fe allwn ni neud ag ychydig o dolach a maldod, bob un ohonom.



GAN obeithio y daw 2021 â newid byd i ni. Ond am y tro, mwynhewch y Nadolig.

***Llyfr Bach Nadolig*, gol. Elinor Wyn Reynolds, Barddas £9.95**

LANSIO CYFROL NEWYDD

Barddas a'r Priordy'n lansio

LLYFR BACH NADOLIG

gol

Elinor Wyn Reynolds

Nos Iau, 17 Rhagfyr 2020 am 7 yr hwyr

Caiff y ddolen Zoom ei rhyddhau mewn da bryd



Byddwn yn gallu prynu copi o'r gyfrol wrth i ni adael y Priordy ar Ddydd Sul 6 a Dydd Sul 13 Rhagfyr. Gofynnir i ni ddod ag arian neu siec am £9.95 mewn amlen a gosod yr amlen yn y blwch a fydd ar gael y tu allan i'r brif fynedfa a chodi copi. Bydd Elinor Wyn eisoes wedi llofnodi rhai o'r cyfrolau. Perchir rheolau pellter cymdeithasol. Bydd y gyfrol ar gael hefyd yn Siop y Pentan.

DARLLENIADAU

Mis Rhagfyr	Darlleniad
Wythnos 2 Adfent 2	Marc 1:1-8
Wythnos 3 Adfent 3	Ioan 1:6-8, 19-28
Wythnos 4 Adfent 4	Luc 1: 26-38
Noswyl Nadolig	Luc 2: 1-14
Dydd Nadolig	Eseia 9: 2-7
Gŵyl San Steffan (Merthyrdod Steffan)	Marc 5:10-12 neu Actau 8-7,60
Wythnos 5	Luc 2: 22-40


DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a'n gwesteion arbennig am y lluniau'r mis hwn.



Odliadur Rhyngweithiol Newydd!

Mae Catrin Gwyn a Tudur Dylan Jones wedi creu Odliadur, sef adnodd rhyngweithiol newydd i helpu plant 3-7 oed ddysgu beth yw odli a sut i odli. Dyma ofyn ychydig o gwestiynau i Catrin am y fenter hon:



PP: O ble daeth y syniad i greu'r Odliadur, Catrin?

CG: *Buon ni'n dau wrthi'n cyd-weithio gyda chwmni Telesgop a Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnodd rhyngweithiol Newydd a oedd wedi'i dargedu at blant 3-7 oed i'w dysgu nhw beth yw odl a sut i odli (er mae'r adnodd hefyd yn addas ar gyfer plant hŷn!). Ar ôl cael y syniad gwreiddiol, yr her wedyn oedd mynd ati i gynllunio gweithgareddau y byddai plant yn mwynhau eu chwarae!!*



PP: Elli di ddweud yn gryno beth sydd yn y pecyn i gyd?

CG: *Mae'r adnodd wedi cael ei rannu i ddwy ran, cam 1 a cham 2. Mae 20 gweithgaredd wedi cael eu cynnwys ym mhob cam. Gellir gweld 5 gweithgaredd cychwynnol yn y ddwy ran sy'n esbonio beth yw odl, 10 gweithgaredd yn seiliedig ar themâu penodol (megis hamdden, y môr, lliwiau ac anifeiliaid), ac yna 5 gêm hwyliog ar y diwedd. Mae modd gweithio drwy'r gemau neu fynd i'ch hoff gêm yn syth! Mae cerddi gwreiddiol hefyd yn rhan o'r gweithgareddau lle mae cyfle i'r plant orffen y llinellau gan ddefnyddio odl.*

PP: Mae yna bwyslais yn yr Odliadur ar ddysgu drwy chwarae - ffordd ddelfrydol i gyflwyno odli a barddoni?

CG: *Mae odl wedi bod yn rhan annatod o'n hiaith ni ers canrifoedd, ac mae plant wedi arfer clywed yr odl mewn hwiangerddi o oedran ifanc iawn. Felly, drwy gymysgu'r ffyrdd traddodiadol o allu clywed yr odl, y dechnoleg ddiweddaraf, a'r ffaith bod gymaint o bwyslais nawr mewn ysgolion ar ddysgu drwy chwarae, rydyn ni'n gobeithio ein bod wedi llwyddo i greu rhywbeth hwyliog y gall y plant fwynhau ei chwarae (a dysgu yr un pryd!)*

PP: Oes rhaid cael athro / athrawes neu riant wrth law i helpu'r plant weithio'r Odliadur?

CG: *Dim o gwbl. Roedd hi'n bwysig i ni wrth ddatblygu'r adnodd ein bod ni'n gallu annog annibyniaeth yn y plant. Mae cyfarwyddiadau clir i'w darllen ar gyfer pob gêm, ond hefyd mae modd clywed y cyfarwyddiadau i'r rheini sydd ddim yn hyderus yn darllen eto.*



PP: Ble mae dod o hyd i'r Odliadur?

CG: *Mae'r adnodd ar gael yn **HWB** neu ar wefan www.odli.cymru*

PP: A beth yw'r pris?

CG: *Yn rhad ac am ddim!!*

PP: Mae'n swnio fel adnodd da i ddiddanu'r plant dros wyliau'r Nadolig!

CG: *Pam lai?! Y plant yn mwynhau a'r rhieni yn cael 5 munud dawel ... beth well?*

Diolch yn fawr iawn i ti Catrin a phob dymuniad da gyda'r odliadur!



***Diolch i'r
Dr Angharad Wyn
am baratoi'r Calendr***

CALENDR ADFENT RHITHIOL Y PRIORDY

**Ymunwch â ni'n
ddyddiol drwy'r
Adfent
ar
Wepryd Capel y
Priordy**



NADOLIG KEN OWENS



Cymru, y Llewod a Chaptan y Scarlets

Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?

***Fel arfer, rwy'n paratoi ar gyfer gêm y diwrnod canlynol. Agor
anrhegion gyda'r mab a 'ngwraig. Gweld y teulu a
dim bwyta gormod!***

Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?

Cwrs Cyntaf

Bwyd y Môr

Ail Gwrs

Twrci a Chinio Nadolig Traddodiadol

Trydydd Cwrs

Hufen lâ – Super Mario Mix!

Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?

***Nadolig gyda'r mab yn 3 oed – pan oedd e'n deall beth oedd
yn digwydd! Gweld ei wyneb ar fore Nadolig!***


Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?

***O deuwch ffyddloniaid. Tôn dda. Atgofion o ganu'r garol
yn Ysgol Bro Myrddin.***

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON

LLADRAD

Fis diwethaf, soniwyd bod drysau newydd yn eu lle. Erbyn hyn medrwn ddweud fod System Sain newydd wedi'i gosod hefyd! 'Rydym bron â chyrraedd diwedd y daith! Un cais sydd gennym ar ôl yr holl llanast a'r trafferthion yw cael llonydd.



AIL YMGYNULL YN SALEM?

Nid ydym wedi cynnal oedfa yn Salem ers mis Mawrth ac eithrio un gwasanaeth angladdol. Bwriedir newid hyn Sul cyntaf Adfent. Bydd yn brofiad gwahanol i'r hyn arferai fod yn Salem, ond ein gobaith yw y bydd yn gyfle i'r rhai sy'n dymuno dod at ei gilydd i addoli allu gwneud hynny mewn ffordd ddiogel a myfyrgar. Mae pawb wedi derbyn copi o'r canllawiau os am ddod.

Dyma'r olygfa fydd yn eu haros.

AGOR Y LLYFR.

Gan nad yw'n bosib ymweld â'r ysgolion, bwriad criw *Agor y Llyfr* yw gwneud eu fidios eu hunain a'u cyflwyno i'r ysgolion. Mae'r cyntaf : *'Cyflwyniad i'r Adfent'* wedi cyrraedd yr ysgolion a'r gweddill wrthi'n cael ei baratoi



Ein dymuniadau da oddi wrthym yn y Priordy I bob un ohonoch yn Salem dros yr Ŵyl a diolch o galon am y newyddion sy'n dod atom bob mis.



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

Rhagfyr		Ionawr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun	Huw	Alun	Adrian
Charles	Michael	Charles	Evans

DARLLENWYR

Rhagfyr	6	PIP	Ionawr	3	Cana / Bancyfelin
	13	Sulwyn Thomas		10	Y Plant
Cana	20	Alun Charles		17	I'w drefnu
Bore Nadolig	25	Y Bobl Ifanc		24	I'w drefnu
	27			31	I'w drefnu

CYHOEDDWYR

Rhagfyr	Wyn Tegryn Evans	Ionawr	Catrin H Jones
---------	------------------	--------	----------------

CYDYMDEIMLAD

Tristwch mawr oedd clywed am golli Mari Lisa mor ddisymwth yn ei chartref yn Llanwrin ym Maldwyn ar 20 Tachwedd 2020.

Cofiw'n werthfawrogol am gyfraniad y Dr Mari yng Nghaerfyrddin a'r Priorddy lle bu'n arbennig o weithgar yn yr Ysgol Sul a chyda'r bobl ifainc. Gwyddom yn dda am ddoniau Mari fel bardd, awdur a chyfieithydd a'i champ yn ennill Gwobr Goffa Daniel Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol ymhlith lluo anrhydeddau eraill. Mae'n cydymdeimlad yn fawr â'i gŵr Huw a'i merch, Beca, a'r teulu cyfan yn y golled hon.

A thristwch hefyd oedd clywed am golli Sandra Tegryn Davies, mam Huw a mam-gu Beca ar 27 Tachwedd 2020.

Mae'n meddyliau gyda hwy a Meryl, chwaer Huw a'i theulu a'r holl gysylltiadau yn y brofedigaeth bellach hon a ddaeth i ran y teulu.



DYMNUNN yn dda ar drothwy'r Nadolig i bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn ac yn gaeth i'w haelwydydd ac i Dan Evans a fu yn yr ysbty a Mair Baston sy'n parhau yno. Ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

A ddylid gorfodi addoldai i gau yn ystod cyfnodau clo ai peidio oedd testun trafodaeth ar y **Post Cyntaf** ar **Radio Cymru** un bore ac ymysg y rhai a fu'n cymryd rhan oedd ein Gweinidog. Roedd barnau'n amrywio ond bod pawb yn cytuno y dylai diogelwch a lles yr addolwyr fod yn flaenoriaeth beth bynnag fyddai'r penderfyniad.

Bu cyfle i bobl rannu'u profiad gyda'r Urdd dros y blynyddoedd a dangos eu gwerthfawrogiad o'r mudiad cyn Sul yr Urdd ar 15 Tachwedd 2020. Symbylwyd hyn gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a da oedd gweld Elin Wyn James a'r Dr Angharad Wyn ymysg y rhai'n manteisio ar y cyfle hwn ar dudalen Gweplyfr a chyfrif Trydar yr Undeb.

Bu cyfle eto i wyllo'r rhaglen **Cynefin** yn dod o Gaerfyrddin ar **S4C** pan fu Jayne Woods yn siarad am ei phrofiad yn chwarae yn y Grŵp Gwerin a oedd, cyn y cyfnod clo, yn cwrdd yn fisol yn nhafarn Pen y Baedd yn y dre. Grŵp anffurfiol sy'n dod ynghyd i chwarae cerddoriaeth traddodiadol Cymreig yw hwn.



Daeth y rhan fwyaf o'r canu o'r Priordy yn y **Y Llyfr Sanctaidd**, sef y rhaglen yng Nghyfres **Dechrau Canu Dechrau Canmol** a fu'n trafod y Beibl Cymraeg ym mlwyddyn dathlu 400 mlynedd er cyhoeddi argraffiad arbennig ohono. Tasg a gyflawnwyd yn ddiweddar gan Arfon Jones ac eraill fu lleisio fersiwn ddigidol o **beibl.net** fel y bo modd gwrandao ar yr Ysgrythur unrhyw awr o'r dydd. Un sy wedi bod yn cynorthwyo yn y dasg hon yw Elinor Wyn Reynolds.

Roedd Gŵyl Cerdd Dant Bro Nans i fod i gael ei chynnal ar yn Llanfyllin elei ond ni fu hynny'n bosibl oherwydd y pandemig. Yn lle hynny, bu rhaglen ar S4C sef **Y Busnes Cerdd Dant 'Ma** yn cynnwys atgofion, archif a straeon gan rai o bobl amlwg y byd hwnnw yng Nghymru. Un o'r rhain oedd Meinir Lloyd a soniodd am y gefnogaeth arbennig a gafodd ar yr aelwyd yng Nghyffylliog yn Sir Ddinbych a chan ei chwaer hŷn Morfudd Maesaleg. Soniodd hefyd am ei hatgofion yn teithio i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn y de am y tro cyntaf, yn enwedig y digwyddiad doniol wrth geisio dod i'r afael â'r acen ddeheuol wrth y bwrdd brecwast yn Aberaeron! Daeth Meinir, wrth gwrs, i fod yn gyfrifol am sawl parti cerdd dant dros y blynyddoedd a chôr llwyddiannus Telynau Tywi.

Ar **Troi Tir** ar **Radio Cymru** bu cyfle i ni wrando ar ddyddiadur Rhiannon Jones sydd newydd ddechrau astudio Amaethyddiaeth a Busnes ym Mhrifysgol Aberystwyth. Diddorol oedd clywed Rhiannon yn dweud fod cynnydd arwyddocaol yn nifer y merched yn y flwyddyn gyntaf sy'n dilyn y cwrs arbennig hwn eleni. A bu Beti-Wyn yn siarad â chriw **Academi Arweinwyr Cymunedol Menter Gorllewin Sît Gâr** (ar lein) am addasu gwaith arweinydd yn ystod y pandemig.

I GLOI, llongyfarchiadau mawr i Ffion Parsons a Joseph Vickridge ar achlysur eu dyweddïad ar 23 Tachwedd 2020. Ein dymuniadau gorau iddynt oddi wrth bawb yn y Priordy.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n
Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Rydym yn cydymdeimlo ag Eiri Thomas a Hanna Medi, Mia Haf a Tomos Benjamin ar golli tad Eiri a thad-cu'r plant, sef John Hywel Thomas, Sanclêr, ar 15 Tachwedd 2020. Cofiw'n hefyd am ei briod, Beti, a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Gwilym a Myfanwy Jones a Bryan ar golli chwaer Gwilym, sef Mary Davies, Llansanffraid-ym-Mechain ym Mhowys, ar 19 Tachwedd 2020. Mae'n meddyliau gyda'i phlant a'r holl deulu yn eu hiraeth a'u galar.

GAIR O WERTHFAWROGIAD

Diolch o galon i'n gwesteion arbennig sydd wedi bod mor barod i gyfrannu i Rifyn Nadolig ein Papur, sef Huw Edwards, Elin Jones, Gillian Elisa, Shân Cothi a Ken Owens. Diolch i chi i gyd am eich diddordeb a hefyd eich dymuniadau da

CYFARCHION



Pob bendith dros Wyl y Nadolig oddi wrth Beti-Wyn, Elin a Sara. Cadwch yn ddiogel ac yn iach. Diolch am bopeth yn ystod 2020. Gobeithio y bydd 2021 yn well blwyddyn i ni.





Y SULIADUR



Rhagfyr	6	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Capel y Bedyddwyr Saesneg Oedfa Nadolig Ddigidol PIP gyda'n Gweinidog	
	13	Bore	Oedfa yn y Capel gyda Tudur Dylan Jones (Ni fydd yn oedfa deulu) Casgliad at Yr Ysgol Sul. Casgliad olaf y flwyddyn Oedfa Nadolig Ddigidol yr Ysgol Sul	
	20	Bore	Oedfa Undebol yng Nghana am 10 gyda'n Gweinidog Oedfa Ddigidol yr Ofalaeth gyda'n Gweinidog ac yn cynnwys cerdd / cyflwyniad Tudur Dylan Jones	
	27	Bore	Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog	

Ionawr	3	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	10	Bore	Cwrdd Plant gyda'n Gweinidog	
	17	Bore	Oedfa Deulu gyda'r Dr Hefin Jones	
	24	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	
	31	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Bore Nadolig

Oedfa Nadolig am 9 yn y Capel gyda'n Gweinidog a'r Bobl Ifainc
Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

Mae cyfle i Blant yr Ysgol Sul a PIP ymuno â'r Oedfa Deulu bob Sul.
Bydd y Calendr yn ymddangos unwaith y bydd yr Ysgol Sul yn aildechrau.



DALIER SYLW



Yn anffodus, ni fyddwn yn medru gwahodd
cyfeillion / teuluoedd o'r tu allan i'r Ofalaeth i'r oedfaon dros Ŵyl
y Nadolig eleni oherwydd prinder lle. Ymddiheuriadau i'n
cefnogwyr ffyddlon.

CYFARCHION Y TYMOR I BOB UN O'N DARLLENWYR